| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **5 Rhagfyr 2024** |
| **TEITL** | **Adolygiad Cyfansoddiad** |
| **AMCAN** | **Derbyn cymeradwyaeth i addasiadau i'r Cyfansoddiad** |
| **ARGYMHELLIAD** | **(a) Fod Cyngor yn mabwysiadau y newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo a restrir yn Atodiad 1**<br><br>**(b) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth am newidiadau dirprwyedig i'r Cyfansoddiad yn Atodiadau 2 a 3** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng Menna Trenholme** |
| **SWYDDOG CYFIRFIOL** | **Iwan Evans - Swyddog Monitro** |

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad yn adrodd ar addasiadau i'r Cyfansoddiad sydd unai angen penderfyniad neu yn cael eu cyflwyno er hysbysu y Cyngor o newidiadau dirprwyedig . Daw'r newidiadau yn sgil datblygiadau deddfwriaethol neu adolygiad o drefniadau yn arbennig felly yn y maes trwyddedu

## 2. Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat

Mae'r gyfundrefn ar gyfer caniatáu neu wrthod ceisiadau am drwyddedau tacsi yn cynnwys hawliau apêl, i Lys yr Ynadon. Mae penderfyniadau i wrthod caniatáu ceisiadau gan Is - Bwyllgor , neu i ddiddymu neu atal trwyddedau gan swyddogion yn cael eu gwneud er mwyn diogelu 'r cyhoedd. Mae pob cyfeiriad at Is Bwyllgor yn arwain at gynnal gwrandawiad. Credir fod sgil effeithiau'r Cynllun Dirprwyo fel ac y mae yn golygu:

- Llwyth gwaith diangen i'r Is bwyllgor oherwydd y nifer o geisiadau sydd yn rhaid eu hadrodd oherwydd bod yr ymgeisydd gyda unrhyw hanes troseddol
- Llwyth gwaith diangen i'r Gwasanaeth Trwyddedu a'r Gwasanaeth Pwyllgorau oherwydd yr angen i baratoi adroddiadau a chyfarfodydd yr Is bwyllgor ar hap
- Oedi yn y broses o benderfynu ar geisiadau oherwydd yr angen i adrodd i'r Is-bwyllgor sydd yn golygu fod ymgeiswyr yn gorfod disgwyl yn hirach am benderfyniad

Credir y gellir adolygu'r drefn ddirprwyo gan sicrhau parhad i wydnwch penderfyniadau swyddogion a'r Is - Bwyllgor ; ond drwy ganiatáu cyfle i'r Is -Bwyllgor ganolbwyntio ar geisiadau mwyaf difrifol neu gymhleth.

Mae trefniadau dirprwyo penderfyniadau fel hyn yn amrywio o Gyngor i gyngor. Mae

rhai Awdurdodau Trwyddedu yn dirprwyo hawl i swyddog benderfynu ar unrhyw gais nad yw yn groes i bolisi. Mae rhai yn dirprwyo hawliau penderfyniad i Swyddog ; ond gyda chyfundrefn apêl i Is - Bwyllgor os nad yw ymgeisydd yn cytuno gyda phenderfyniad. O safbwynt Cyngor Gwynedd rydym yn grediniol fod rôl bwysig gan yr Is bwyllgor o ran ystyried a phenderfynu ar geisiadau sydd yn groes i unrhyw bolisi sydd yn weithredol ar y pryd; megis y polisi presennol sydd yn rhoi arweiniad o ran penderfynu os yw unigolyn yn addas a phriodol i ddal trwydded gyrru tacsi – (Polisi Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr ). Mae angen Eglurdeb o ran diffinio'r amgylchiadau lle dylid cyfeirio cais i'r Is bwyllgor. Fodd bynnag lle mae cais o fewn Polisi mae'r gwrandawiad IS Bwyllgor yn troi yn fater o ffurfioldeb sydd a'r sgil effeithiau a nodir uchod .

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar yr 11fed o Dachwedd 2024 ( DIRPRWYO HAWLIAU I BENDERFYNU AR GEISIADAU TRWYDDEDAU TACSI.pdf (llyw.cymru)) Cafwyd cefnogaeth y Pwyllgor i'r addasiad i'r Cyfansoddiad a geir yn **Atodiad 1.** Gan fod y materion yma yn faterion sydd o fewn ystod swyddogaethau y Cyngor Llawn gofynnir am ei i fabwysiadau y newid yma.

**3. Cynllun Trwyddedu Gorfodol Newydd – Triniaethau Arbennig**

. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun trwyddedu newydd ar gyfer 'Triniaethau Arbennig' yn 2024. Mae Triniaethau Arbennig yn cynnwys tatŵio, lliwio croen lled-barhaol, tyllu cosmetig, aciwbigo, nodwyddau sych ac electrolysis; a bydd y cynllun trwyddedu newydd yn orfodol.

Bwriad y cynllun trwyddedu yw gwella a chynnal safonau atal a rheoli heintiau yn y diwydiant triniaethau arbennig a sicrhau diogelwch ac iechyd cleientiaid ac ymarferwyr fel ei gilydd.

Cadarnhawyd mai'r dyddiad ar gyfer gweithredu'r cynllun hwn fydd 29 Tachwedd 2024; bydd rheoliadau sy'n llywodraethu pob agwedd o'r cynllun yn dod i rym ar y dyddiad hwn, o dan Ran 4 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("Y Ddeddf") ; gan gynnwys Rheoliadau Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024 a Rheoliadau Pwyllgorau Trwyddedu Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024. Fel rhan o'r trefniadau mae'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog sydd a chyfrifoldeb statudol uniongyrchol am y maes yma wedi dirprwyo y cyfrifoldeb gweithredol i'r Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog . Addaswyd y Cyfansoddiad yn Adran 13 Rhan 1 i adlewyrchu y penderfyniad yma – **Atodiad 2**

**4. Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023**

Yn unol a'r paragraff 2.6.3 y Cyfansoddiad mae gennyf hawl i ymgorffori newidiadau deddfwriaethol yn y Cyfansoddiad.

**"2.6.3 Newid Deddfwriaethol**

Caiff y Swyddog Monitro ddiwygio unrhyw ran o'r Cyfansoddiad lle y mae diwygiad o'r fath yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol. Bydd diwygiadau o'r fath yn dod i rym pan fydd

y Swyddog Monitro yn penderfynu felly neu pan fydd y ddeddfwriaeth (lle y bo'n berthnasol) yn darparu ar gyfer hynny. Bydd newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn er gwybodaeth."

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023yn dwyn ynghyd y prif ddeddfwriaeth ar gyfer amgylchedd hanesyddol yng Nghymru .Y prif Ddeddfau a ddygir ynghyd yn yr ymarfer cydgrynhoi hwn yw:

a. Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion Hynafol 1953
b. Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979
c. Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
d. Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

Mae'r ymarfer cydgrynhoi hefyd yn ailddatgan darpariaethau sydd i'w cael ar hyn o bryd mewn Deddfau eraill sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol i wella hygyrchedd ac eglurder. Mae'r rhain yn cynnwys:

a. Deddf Llywodraeth Leol 1972
b. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
c. Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

Yn ogystal fe ddiwygiwyd darpariaethau Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 i ymgorffori y pwerau newydd yn y Cyfansoddiad. Mae'r newidiadau yma wedi eu dangos yn **Atodiad 3.** Daeth y Deddfwriaeth i rym ar 4ydd o Dachwedd 2024. Oherwydd mae deddfwriaeth cydgrynhoi sydd yma defnyddiais fy mhwerau dirprwyedig i wneud yr addasiadau angenrheidiol.

**5 . ARGYMHELLIAD**

**(a) Fod Cyngor yn mabwysiadau y newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo a restrir yn Atodiad 1**

**(b) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth am newidiadau dirprwyedig i'r Cyfansoddiad yn Atodiad 2 a 3**

**Swyddog Monitro**

Awdur yr Adroddiad

**Pennaeth Cyllid**

"Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol."

# ATODIAD 1

## Adran 13 Rhan 3

11.3.5 Gweithredu pwerau'r Cyngor ym maes **trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hur preifat** ag eithrio'r materion canlynol sydd yn gyfrifoldeb i'r Is-Bwyllgor o'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

(a) Penderfynu ar gais am drwydded gyrrwr hacni/hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Biwro Cofnodion Troseddol yn dangos collfarn neu rybudd heddlu **pan fydd y cais yn groes i bolisi'r awdurdod.**

(b) Penderfynu ar gais am drwydded cerbyd hacni/hurio preifat pan na fydd y cerbyd yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod.

(c) Penderfynu ar gais am drwydded gweithredwr hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dangos collfarn neu rybudd heddlu **pan fydd y cais yn groes i bolisi'r awdurdod.**

# ATODIAD 2

## Adran 13 Rhan 1

**Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 – Triniaethau Arbennig**

Mae gweithredu swyddogaethau dan paragraff 21(1) o Atodlen 3 i Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 ('Deddf 2017') a ddirprwywyd  i'r Pwyllgor  fel y pwyllgor trwyddedu'r awdurdod a sefydlwyd o dan adran 6 Deddf 2003 wedi eu dirprwyo i'r Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog. .

# ATODIAD 3

## Adran 13 Rhan 1

| | | |
|---|---|---|
| 20. Y pŵer i benderfynu ar gais am gydsyniad adeilad rhestredig, a phwerau cysylltiedig. | ~~Adrannau 16(1) a (2), 17, 27(2) a 33(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p.9).~~ Adrannau 96(1) a (2) a 97(1) i (8) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (dsc 3) a pharagraffau (1), (2) a (3) o Atodlen 9 iddi. | Pennaeth Amgylchedd |
| 21. Y pŵer i benderfynu ar geisiadau am gydsyniad ardal gadwraeth. | ~~Adran 16(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, fel y'i cymhwysir gan adran 74(3) o'r Ddeddf honno.~~ Adrannau 96(1) a 97(1) i (4) a (7) ac (8) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 fel y'u cymhwysir gan adran 163 o'r Ddeddf honno. | Pennaeth Amgylchedd |
| 22. Dyletswyddau sy'n ymwneud â cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth. | ~~Adrannau 13(1) a 14(1) a (4) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990~~ Adran 95(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a rheoliadau 3 i 6 ac 13 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1987 a pharagraff 127 o gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol; Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth. | Pennaeth Amgylchedd |
| 23. Y pŵer i gyflwyno hysbysiad cadw adeilad hysbysiad rhestru dros dro, a phwerau cysylltiedig. | ~~Adrannau 3(1) a 4(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.~~ Adrannau 83(1) a (2) ac 84(1) a (2) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. | Pennaeth Amgylchedd |
| 24. Y pŵer i roi hysbysiad gorfodi mewn perthynas â dymchwel adeilad sydd heb ei restru mewn ardal gadwraeth. | ~~Adran 38 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990~~ Adrannau 123, 124 a 125 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.. | Pennaeth Amgylchedd |
| 25. Pwerau i gaffael adeilad rhestredig y mae angen ei drwsio a chyflwyno hysbysiad trwsio. | ~~Adrannau 47 a 48 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990~~. Adrannau 137 i 139 a 111(5) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. | Pennaeth Amgylchedd |
| 26. Y pŵer i wneud cais am waharddeb mewn perthynas ag adeilad rhestredig. | ~~Adran 44A o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990~~ Adran 135 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 | Pennaeth Amgylchedd |
| 27. Y pŵer i wneud gwaith brys. | ~~Adran 54 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.~~ Adran 144(1) a (3) i (7) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. | Pennaeth Amgylchedd |